Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 05-01-21 – 7.30pm**

**(Cyfarfod Skype)**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr Gwilym Williams (Cadeirydd), John Emlyn Jones, Ceri Leeder, Wendy Williams, John Lloyd Williams, Arthur Williams, Gwenan Roberts, Geraint Owen, Gwyn Jones a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Cyng Austin Roberts |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd a croesawodd Gwyn Jones i'w gyfarfod cyntaf fel cynghorydd. Arwyddodd Gwyn y ffurflen 'datganiad derbyn swydd' yn ngwydd y cynghorwyr.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Noder uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Cyng Gwyn – Ffridd Uchaf Cynllunio

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (01/12/20).

   Cynigwyd cofnodion 01/12/20 yn gywir gan Cyng John Emlyn ac eiliwyd gan Cyng Wendy.

   Newid i'r cofnodion - Cofnodion Cymraeg – darn heb eu gyfieithu ynddynt.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Praesept 2021/22 / *2021/22 Precept:***

     Cafwyd trafodaeth. Cyng Wendy yn cynnig codi'r praesept 10%. Cyng Arthur yn eilio. Y Cynghorwyr i gyd yn cytuno. Penderfynwyd cael trafodaeth am costau claddu'r fynwent yn y cyfarfod nesaf. Y Clerc i'w ychwanegu at agenda mis Chwefror.

   - **Awdit 19/20 */ 2019/20 Audit:***

     Dywedodd y Clerk bod y cyfrifon gyda'r cyfrifydd. Y Clerc i gysylltu gyda'r BDO i esbonio pam bod y cyfrifon yn hwyr.

- **Nadolig y Pentref – Cystadleuaeth Ffenest Nadolig / *Village Christmas – Christmas Window Competition:***

  Adroddodd Y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd bod y gystadleuaeth wedi bod yn un da iawn a bod bob teulu wedi mynd i lawer o drafferth gyda'u ffenestri.  Y Clerc i drefnu'r talebion gyda'r Bee a'r gyfer yr enillwyr.

- **Pryderon goryrru yn y pentref*:***

  Rhoddodd Cynghorydd Ceri y gwybodaeth diweddaraf am y goryrru drwy'r pentref. Archwiliodd  Cynghorydd Ceri a'r PSCO gyflymder y ceir sy'n teithio drwy'r pentref ac roedd bron pob car yn goryrru.  Mae anghysondeb ym mhob rhan o'r pentref gydag arwyddion cyflymder.  Mae arwydd '30' wrth yr ysgol.  Mae arwyddion '20' wrth yr ysgol yn goch.  Mae'r arwydd cyflymder wrth Yr Efail yn goch ond yn fod yn ddu.

  Gofynnodd y Cynghorydd Ceri a fyddai modd newid y cyflymder drwy'r pentref i '20'.  Y Clerc i gysylltu ag ERF i holi a yw hyn yn bosibl a beth yw'r weithdrefn.

- **Adroddiad Cae Chwarae*:***

  Rhoddodd Cynghorydd Ceri y gwybodaeth diweddaraf yn dilyn y cyfarfod gydag Arolygydd Meysydd Chwarae. Anfonodd yr arolygydd lun o ramp beiciau a oedd wedi'i ddylunio ym Mlaenau Ffestiniog y gellid ei ddylunio mewn maint llai fel y gall ei ddefnyddio gan Eglwysbach.  Gellid gofyn i blant yn y pentref gymryd rhan mewn dylunio'r ramp. Cynghoryddd Ceri yn cyfarfod yr Arolygydd Maesydd Chwarae yfory i fesur a chostio.

6. **CYNLLUNIO**

Penderfyniad Apêl Cynllunio - Ffridd Uchaf, Trofarth, Abergele, Conwy, LL22 8BW.

Nodr er gwybodaeth.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £5,855.17  – (Ad-daliadau £1,298.50 anfoneb glanhau'r toiledau / £2,352.00 presept)
Angladdau - £190.20
Cadw - £2,078.16

**Taliadau Ar-lein:**
**Cyfredol:**
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00

**Angladdau:**
- Dim.

8. **GOHEBIAETH**

- **E-Bost: Awdit Cymru - cylch archwilio 3 blynedd:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC – Grant Cyfalaf Chwarae:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC - Darpariaeth gwasanaethau:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC - Parciau i Bawb:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Elusen Ambiwlans Awyr Cymru - Apêl Argyfwng:**
  Agenda cyfarfod mis Mawrth.

- **E-Bost: Sarah Palfreyman, Wern Bach – Pont:**
  Disgwyl am grant. Y Clerc i ofyn i Cyng Austin ymateb i'r e-bost.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Cydymdeimlodd y cynghorwyr gyda teulu Gwyn Williams, 15 Maes Llan ar ei golled. Y clerc i drefnu llythyr o gydymdeimlad at ei deulu;
- E-bost o ddiolch gan Phyllis Purchase am y blodau a'r cerdyn;
- Cyng Ceri – y Clerc i atgoffa Cyng Austin am y giat o dan y bont
- Cyng John Emlyn – Cyng Austin yn dweud bod o yn mynd i weld yr adran gyfeithiol CBSC wythnos yma ynglŷn â Chwarael y Nant. Son am osod ffens un ochr.
- Cyng John Emlyn – draen yn ymyl Ty Gwyn, dwr yn llifo dros y clawdd, draen wedi blocio.
- Cyng John Emlyn – twll mawr ar ochr y lon wrth Sgubor Degwm.
- Cyng John Lloyd – Ffordd Maenan/Ffordd Gyffylog/Ffordd Bodnant lle mae bin halen wedi sleidio i'r clawdd – angen llenwi biniau halen.
- Cyng Gwyn – Ffynnon Meirch, twll yn y ffordd wrth yr hen chwarael, wrth tro Pen y Bryn a Ffynnon Meirch.
- Cyng Gwyn – llwybr cyhoeddus Foel a Pen Mynydd – 2 gamfa yn beryg wedi dechrau pydru. Llwybyr wedi cau efo coed a tyfiant.
- Cyng Arthur – angen llythyrau diolch am y goeden nadolig – Paul a Paul Williams a Paul Brian, Meithrinfeydd Gardd Bodnant.
- Cyng Arthur – Ffordd Graig i Bodnant, polyn metal dod allan o'r gwrych o'r ochr chwith cyn Ffordd Cae Forys.

10. **DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

02/02/21
02/03/21
06/04/21
04/05/21

01/06/20
06/07/21
07/09/21
05/10/21
02/11/21
07/12/21

Daeth y cyfarfod i ben am 9.27 o'r gloch.